

CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR
A GYNHALIWDYD AR 11 MAI 2018

Y Maer, y Cyngh Alun Lenny, yn llywyddu dros Gyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn Neuadd Sirol, Caerfyrddin, ar ddydd Gwener, y 11eg o Fai 2018 am 6.30pm.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Julia Ault, Parchedig Tom Defis, Dr Baba Gana, Peter Hughes Griffiths, Gareth John, Angharad Jones Leefe, Alun Lenny, Arwel Lloyd, Ken Lloyd, Dr Ioan Matthews, Miriam Moules, Emllyn Schiavone, Jeff Thomas, Matthew Thomas, Wyn Thomas a Barry Williams.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngh Phil Grice a Danny Bartley.

2. ANERCHIAD AGORIADOL

Agorwyd y cyfarfod gydag anerchiad gan Gaplan y Maer oedd yn ymddeol, y Parchedig Beti-Wyn James. Diolchodd y Maer oedd yn ymddeol y Parchedig James am ei chefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

3. ANERCHIAD Y MAER SY’N YMDDEOL

“Braint aruthrol i fi oedd cael fy urddo’n Faer y dref lle cefais fy ngeni – yn hen Ysbyty Heol y Prior, er taw crwt o’r wlad ‘o ni, wedi cael fy magu yn ardal Bwlch-y-corn ar Fynydd Ystaffle Carn sy’n edrych lawr ar dre Caerfyrddin. Ond rwy wedi treulio tua hanner fy oes yn byw yma, a wastad wedi gweithio yn y dre – er bod y Faeres yn fwy o towny, a dweud y gwir! Daeth Ann yma pan oedd hi’n tair blwydd oed, a buodd perthnasau iddi’n cadw’r siop sweets yn Heol y Frenhines am hanner can mlynedd, gan fyw uwchben y siop, fel oedd bobol bryd hynny. Trwy Fforwm y Dref, mae hybu yr hen strydoedd hyn yn flaenoriaeth gennym ni heddiw.

Gan mod i wedi enwi Ann, cystal i fi ddiolch iddi nawr am fod yn fath gefn i fi yn ystod y flwyddyn – a mwy na hynny, mewn gwirionedd, gan iddi fynd i ambell achlysur hebddof i, pan oeddwn â dyletswyddau eraill. Rwy am ddiolch o galon hefyd i Eleri James, Ysgrifenyddes y Maer, am fynd y filltir ychwanegol sawl tro.

Diolch i’r ddwy ohonoch chi am wneud yn siŵr bod Maer Caerfyrddin yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol. A diolch hefyd i’r Darpar-Faer y Cynghorydd Emllyn Schiavone am gymryd fy lle pan nad oeddwn i ar gael, ac iddo fe a’i wraig Tina am fod yn gwmni difyr i Ann a fi ar sawl achlysur.

Rwyn ddiolchgar i’r caplan a’r cyfaill, y Parchg Beti-Wyn James, am ei chefnogaeth. Mae bod yn gaplan y Maer bron â bod yn swydd barhaol i Beti-Wyn y dyddiau hyn! Diolch hefyd i holl staff y cyngor am eu cefnogaeth a’u hymroddiad mewn gwahanol ffyrdd – cynnal a chadw’r parciau a gofalu am y

fynwent, codi'r goleuadau Nadolig ffantastic, trefnu Diwrnod y Ceirw, cadw cofnodion y cyngor a gofalu am y cyfryngau cymdeithasol ac yn y blaen.

Mae'r ffaith bod y Cyngor Tre wedi cael llwyth o wobrau gan Un Llais Cymru fis diwethaf yn dyst i waith caled ac ymroddiad ein staff ni, o dan arweiniad y Clerc, Alun Harries. Rwyn falch i ddweud ein bod ni, fel cynghorwyr, wedi cydnabod eu teyrngarwch trwy sicrhau nad oes neb sy'n gweithio i Gyngor Tre Caerfyrddin yn ennill llai na'r Cyflog Byw sydd wedi cael ei osod gan y Living Wage Foundation. Diolch o galon iddyn nhw eto.

Fel wastad, roedd 'na alwadau mawr ar y Maer. Mae'n anhygoel sawl cymdeithas a mudiad sydd yn y dref hon – y rhan fwyaf naill ai yn elusennau, neu'n cyfrannu tuag at gynnal achosion da. Byddai bywyd ein trigolion – yn enwedig y rhai sydd angen cymorth o sawl math – yn llawer tlotach hebddi nhw. Rwy am enwi un yn benodol – Pwyllgor Elusen y Maer. Ma' rhai pobol yn credu, taw elusen i godi arian i'r Maer yw hwnnw! Na – mae nifer di-ri o achosion da wedi elwa o waith caled Pwyllgor Elusen y Maer dros y blynyddoedd.

Un o'r gweithgarwch y buo nhw'n gwasanaethu ynddo oedd ymweliad Siryfion a chyn-siryfion Cymru a Lloegr ym Mis Medi. Dim ond 15 tre neu ddinas sydd â sheriff – a ma'r Cyfarfodydd Blynyddol yn mynd o gwmpas y pymtheg yn eu tro. Y llynedd, tro Caerfyrddin oedd hi. Mae'r Cynghorydd Phil Grice yn mynd yn ffyddlon i'r cyfarfodydd hyn ers blynyddoedd, ac yn ei absenoldeb, rwy am ddiolch iddo am gytuno i fod yn siryf eto yn ystod y flwyddyn a fu – er mwyn hwyluso'r trefniadau.

Fel un sydd â diddordeb mawr mewn hanes, rwyn ymwybodol o'r olyniaeth rwy wedi sefyll ynddi fel Maer – yn eu plith Rhys ap Iorws, y dyn, medde nhw, a laddodd Richard III, brenin Lloegr, ym Mrwydr Bosworth gan roi Harri Tudur ar yr orsedd. Buodd Rhys yn faer Caerfyrddin pedwar o weithiau! Fel Maer, fe wnes i gyfrannu baner anferth – copi o faner Harri Tudur – i'w chodi uwchben eglwys San Pedr i nodi Diwrnod Bosworth, a chael cyfle i gyfrannu i eitemau ar y radio a theledu i siarad am yr achlysur hwnnw – er mwyn dynnu sylw at gyfraniad mawr yr hen dref hon i hanes Cymru a Phrydain.

Braint oedd cael agor y Felodrom newydd – cynllun a gostiodd dros hanner milliwn o bunnoedd. Tipyn o brosiect – un a fydd yn rhoi hwb anferth i seiclo yng ngorllewin Cymru. Rwy am ddiolch i Alun Harries am ei arweiniad a'i ymroddiad, ac i Carl Morgan, ein peiriannydd.

R'odd 'na ambell siom yn ystod y flwyddyn, bu'n rhaid canslo Parêd Gŵyl Ddewi – am yr ail flwyddyn o'r bron: glaw y llynedd, eira eleni! Cofiwch chi – ro'dd yr haf ddim lot gwell, a bu'n rhaid canslo'r daith fel Llyngesydd y Porthladd i lawr Afon Tywi deirgwaith! Eto, yn rhinwedd y swydd honno, fe ges i'r fraint o fod yn bresennol pan arwyddwyd y cytundeb i adeiladu cwch fferi newydd i deithio rhwng Glanyfferi a Llansteffan, a gobeithio lan yma i Gaerfyrddin hefyd. Mae plant ysgol lleol wedi enwi'r cwch a fydd yn cysylltu'r ddau bentre ar draws y Tywi yn Glansteffan. Enw gwych!

Am y misoedd diwethaf, rwyf wedi bod yn ceisio codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am fygythiad gwirioneddol i ddyfodol yr uned Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Glangwili. I'r perwyl hwnnw, rwyf wedi sefydlu deiseb ar-lein sydd wedi casglu miloedd o enwau a'i sefydlu, gyda bendith y Cyngor Tref, grŵp cynghori o bobl sydd â phrofiad gwych yn y GIG a Gofal Cymdeithasol - sy'n cynnwys nifer o'n cynghorwyr - mynd â'r ymgyrch ymlaen gydag awdurdod. Rhaid inni dderbyn bod y newid hwnnw yn anochel. Ond mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau bod y newid hwnnw'n cael ei reoli'n gyfrifol a'i arwain gan ystyriaethau democrataidd, yn ogystal ag ystyriaethau clinigol. Ein GIG ni, wedi'r cyfan. Mae'r rhan fwyaf o ysbyty Glangwili yn hen erbyn y safonau presennol. Rwy'n cofio'n dda, pan oeddwn i tua bum mlwydd oed, pan agorodd yr ysbyty newydd. Ychydig iawn a gredaf fod tua 60 mlynedd yn ddiweddarach, byddwn yn lansio ymgyrch, fel Maer Caerfyrddin, i geisio arbed Glangwili rhag cael ei gau, neu israddio o leiaf, fel Ysbyty Cyffredinol.

Ar nodyn mwy llawen, yr achlysur olaf buodd Ann a fi ynndo oedd Ras y Maer. Diolch i'r noddwyr, i bawb a fu'n rhan o'r trefniadau – yn enwedig staff y cyngor tre – ac yn arbennig i Noelwyn a Sharon Daniel. Codwyd miloedd o bunnau i'w rhannu rhwng achosion da.

Diolch i chi gyd unwaith eto am wrando. Dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Emlyn Schiavone wrth iddo baratoi i gychwyn ar ei flwyddyn fel Maer Caerfyrddin.

4. **CYFLWYNIADAU**

Cyflwynodd y Maer dystysgrif o werthfawrogiad i Mr Adam Whitehouse - Partneriaeth Diogelwch Dŵr Sir Gaerfyrddin, a Mr Mike Walters o'r Ford Gron am eu cyfraniad i'r gymuned.

5. **ETHOL MAER Y DREF AR GYFER 2018/2019**

Ar gynnig y Cyngh Dr Ioan Matthews, a eiliwyd gan y Cyngh Arwel Lloyd, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol y dylid ethol y Cyngh Emlyn Schiavone yn Faer Tref Caerfyrddin am y flwyddyn 2018/2019.

Wrth gynnig y Cyngh Emlyn Schiavone, dywedodd y Cyngh Dr Ioan Matthews –

“Anrhydedd yw cynnig enw'r Cynghorydd Emlyn Schiavone i wasanaethu fel Maer Tref Caerfyrddin ar gyfer y flwyddyn 2018/19.

Wrth gynnig enw Cynghorydd Emlyn Gruffydd Schiavone i'w ddyrchafu i swydd Maer Tref Caerfyrddin nid oes unrhyw amheuaeth fod ganddo'r ymrwymiad a'r gallu i gyflawni'r swydd gyfrifol mewn dull effeithiol a deinamig.

Ond rhag ofn bod unrhyw amheuaeth ynghylch cymhwyster ein darpar Faer i fod yn arweinydd ddinesig ein tref, gadewch i mi grynhoi yn fyr –

Yn gyntaf, mae'n ddyn teulu, sydd wedi bod yn rhan annatod o fywyd tref Caerfyrddin ers deugain mlynedd. Mae ganddo wreiddiau teuluol sydd yn pontio'r milltiroedd. Daeth ei dad Vito, o'r Eidal a'l fam, Eluned o ardal Castell

Newydd Emlyn. Yno y magwyd ein darpar Faer, a'r teulu yn cynnal busnes llwyddianus yn y dref ac yn chwarae rhan ym mywyd y fro. Gwasanaethodd Eluned Schiavone mewn llywodraeth leol ei hun, a bu'n faer tref Castell Newydd Emlyn. Wedi priodi â Tina, maent wedi byw yn Nhre Ioan ac, ers blynyddoedd bellach, ym Mhentremerig.

Yn ail, mae wedi treulio ei yrfa yn rhoi degawdau o wasanaeth i Sir Gaerfyrddin ym myd addysg a llywodraeth leol, a chyn ei ymddeoliad roedd yn dal swydd gyfrifol gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin fel swyddog cefnogi cynnydd disgyblion ysgol. Mae ei gonsyrn dros bobl ifanc, yn enwedig y llai breintiedig yn ein tref, yn wybyddus iawn, ac mae ei gysylltiad agos gyda Dr Mz a rhwydweithiau eraill sydd yn eu cefnogi yn wybyddus iawn.

Ac yn drydydd, y mae ganddo gysylltiadau ac ystod eang iawn o gyrff, mudiadau a chymdeithasau yn nhref Gaerfyrddin, fel y bydd Arwel yn son yn y man. Mae ystod ei weithgareddau elusennol, ym myd chwaraeon, y celfyddydau, ac yn y blaen, yn dystiolaeth o'i gysylltiad mewn gwahanol ffyrdd, gyda chymaint o bobl Gaerfyrddin. Yn wir, roedd ei ethol yn Gyngorydd Sir y llynedd yn dyst o hynny. Fel aelod o Gyngor Tref Gaerfyrddin mae ei gyfraniadau i'r drafodaeth bob amser yn ddoeth ac yn ystyrlon, ac yn cwmpasu consyrn gwirioneddol am les a llwyddiant ein tref."

Wrth eilio yr enwebiad, dywedodd y Cyngor Arwel Lloyd –

"Mae'n fraint i mi gael sefyll ger eich bron heno er mwyn eilio'r cynnig i benodi'r cyngorydd Emlyn Schiavone yn faer ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

Mae'r Cyngorydd Ioan Matthews eisoes wedi rhoi ychydig o gefndir Emlyn i chi ond hoffwn i son ychydig am ei amryw rolau yma yn y dref, ac ategu cymaint o gyfraniad y mae Emlyn wedi'i wneud at weithgarwch y Cyngor Tref ers iddo ddod yn aelod.

Mae Emlyn yn berson sy'n adnabod pawb ac mae hynny oherwydd ei fod ynghlwm a chymaint o sefydliadau yma yn y dref.

Mae Emlyn yn gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Parc Waun Dew, ond ar ben hynny mae hefyd yn is-gadeirydd llywodraethwyr Ysgol Gynradd Myrddin.

Mae hefyd yn gadeirydd ar bwyllgor ymddiriedolwyr y canolfannau teuluol - Tŷ Hapus a Tŷ Ni ac yn aelod o bwyllgor rheoli Dr Mz - y prosiect leuenctid yma yn y dref - ac fel soniodd Ioan mae gwasanaethau a chyfleusterau i blant a phobl ifanc yn bwysig iawn i Emlyn.

Mae Emlyn hefyd yn Aelod o Dîm Night Light sy'n gwneud cymaint o waith da yn cynorthwyo pobl ifanc gyda'r hwyr yma yn y dref. Mae'n ysgrifennydd o bwyllgor Apêl Hospis Ty Cymorth yn ogystal - achos sy'n cyfrannu cymaint ac yn adnodd mor allweddol yn y rhanbarth.

Mae Emlyn yn unigolyn sy'n cyfrannu'n helaeth at fywyd ei gymuned a gallai'ch sicrhau chi ein bod ni mewn dwylo diogel iawn, ac rwy'n edrych ymlaen at gyfraniad Emlyn yn ystod y flwyddyn. Pleser felly yw cael eilio'r

cynnig i benodi Emlyn Schiavone yn faer ar dref Caerfyrddin ar gyfer y flwyddyn 2018-2019. Diolch yn fawr”

Urddwyd y Cyngh Emlyn Schiavone yn Faer â chadwyn ac arfbais swydd Maer y Dref.

Y Maer, y Cyngh Emlyn Schiavone, fu'n cadeirio'r cyfarfod o hyn ymlaen.

Darllenodd y Maer, y Cyngh Emlyn Schiavone, Llw'r Morlys, tra'n dal y rhwyf Arian, sef y bathodyn yn y swydd.

Diolchodd y Cyngh Emlyn Schiavone holl Aelodau am eu ffydd ynddo, ac yn datgan ei fod yn fraint ac yn bleser i gael ei ethol yn Faer Caerfyrddin.

Apwyntiwyd y Parch Beti Wyn Jones yn Gaplan I'r Maer am y flwyddyn ddinesig.

6. PENODI DIRPRWY FAER AR GYFER 2018/2019

Ar gynnig y Cyngh Alun Lenny, eiliwyd gan y Cyngh Wyn Thomas, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol y dylid penodi'r Cyngh Jeff Thomas yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn ddinesig i ddod.

Wrth wneud ei gynnig siaradodd y Cyngh Alun Lenny am waith y Cyngh Jeff Thomas a'r rhan amlwg y mae'n chwarae ym mywyd tref Caerfyrddin; yn arbennig ei waith fel Cadeirydd Clwb Pêl Droed Caerfyrddin.

Eiliwyd gan y Cyngh Wyn Thomas, a ddwedodd –

“Pleser mawr yw eilio'r cynnig i wneud y Cyngh Jeff Thomas yn Ddirprwy Faer. Dymunaf bob llwyddiant a iechyd iddo yn y swydd bwysig hon”.

Wedyn datganodd a llofnododd y Dirprwy Faer y Datganiad Derbyn Swydd yng ngŵydd yr Ynad Heddwch, Mrs Bethan Harris.

Diolchodd y Cyngh Jeff Thomas y Cyngor, nododd ei fod yn edrych ymlaen at wasanaethu'r gymuned yn ystod y flwyddyn i ddod.

Buddsoddodd y Maer y Cyngh Jeff Thomas gyda'r gadwyn a bathodyn y swydd.

7. PENODI SIRYF Y DREF AR GYFER 2018/2019

Ar gynnig y Cyngh Parch Tom Defis, eiliwyd gan y Cyngh Miriam Moules, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol y dylid penodi Cyngh Angharad Jones Leefe yn Siryf y Dref am y flwyddyn ddinesig i ddod.

Yn enwebu'r Cyngh Angharad Jones Leefe, siaradodd y Cyngh Parch Tom Defis am gynrychiolaeth menywod ar y Cyngor a phwysigrwyd hyrwyddo a chynyddu'r gynrychiolaeth honno.

Eiliwyd gan y Cyngh Miriam Moules. Nododd bod y Cyngh Angharad Jones Leefe wastad yn barod i hyrwydd anghenion oedolion ifanc y dref.

Diolchodd y Cyngh Angharad Jones Leefe i'r Cyngor am yr anrhydedd.

Buddsoddodd y Maer y Cyngh Angharad Jones Leefe gyda'r gadwyn a bathodyn y swydd.

8. PLEIDLAIS O DDIOLCH I'R MAER SY'N YMDDEOL

Ar gynnig y Cynghorydd Arwel LLoyd, eiliwyd gan y Cyngh Gareth John, **PENDERFYNWYD** bod y diolch yn cael ei rhoi i'r Maer oedd yn ymddeol, y Cyngh Alun Lenny, am ei gyflawniadau fel Maer yn ystod y flwyddyn.

Wrth gynnig pleidlais o ddiolch, dywedodd y Cyngh Arwel Lloyd -

“Braint o'r mwyaf yw hi i mi gael cynnig gair o ddiolch i'r Cynghorydd Alun Lenny am ei waith a'i gyfraniad arbennig fel Maer y dref yn ystod y flwyddyn aeth heibio.

Mae'n siwr eich bod chi gyd yn cytuno bod blwyddyn Alun wedi bod yn un lwyddiannus dros ben – mae wedi cyfrannu'n helaeth a hynny mewn cymaint o wahanol ffyrdd.

Mae wedi arwain a llywio trafodaethau'r cyngor tref yn fedrus a gydag awdurdod, ac rwy'n siwr bod fy nghyd aelodau yn cytuno bod Alun wedi bod yn gadeirydd naturiol ac effeithiol iawn yn ystod ein cyfarfodydd.

Gall Alun ac Ann fod yn falch iawn o'r ffordd y maen nhw wedi cynrychioli'r dref hanesyddol hon – mae nhw wedi cefnogi popeth posib ac rwy'n gwybod bod gwahanol unigolion, grwpiau a sefydliadau yma yn y dref yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth honno'n fawr.

Un peth mae'n rhaid i mi nodi fan hyn am Alun - yw'r ffordd y mae wedi bod mor barod i wrando a siarad gyda phawb – mae barn pawb yn bwysig i Alun – nid yw llais neb yn bwysicach na'r llall. I'r rhai ohono chi sydd ar y cyfryngau cymdeithasol - yn sicr mae wedi bod yn chwa o awyr iach i weld y ffordd y mae Alun wedi ymgysylltu a phobl y dref a thu hwnt yn ystod y flwyddyn ac rwy'n gwybod bod hyn hefyd yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Wrth gynnig enw Alun fel maer yr adeg hon y llynedd – dywedais yn y cyfarfod hwnnw bod Alun yn ymgyrchydd penigamp a'i fod wedi bod yn flaenllaw mewn sawl ymgyrch ar hyd y blynyddoedd. Ac mae hynny wedi parhau eleni ac yn ddiweddar iawn, mae Alun wedi arwain y ffordd yn erbyn y bygythiad mawr sy'n wynebu ein gwasanaethau allweddol yn Ysbyty Glangwili. Bydd yr ymgyrch honno yn parhau yn ystod y misoedd nesaf wrth gwrs ac rwy'n gwybod y bydd Alun yn ei chanol hi hefyd - ac yn parhau i frwydro. Diolch yn fawr i chi am eich arweiniad.

Alun ac Ann – mae wedi bod yn flwyddyn arbennig iawn i chi – mae wedi bod yn flwyddyn lawn, prysur a ffrwythlon a gallwn ni ond estyn ein gwerthfawrogiad i chi am eich cyfraniadau. Mwynhewch yr hoe! Diolch yn fawr iawn i chi.”

Yn eilio'r cynnig i ddiolch, dywedodd y Cyngh Gareth John –

“Mae'n bleser mawr i mi eilio'r bleidlais o ddiolch i Alun am ei waith arbennig dros y flwyddyn diwethaf fel Maer y Dref hanesyddol hon. Mae e wedi cynrychioli'r Cyngor gyda brwdfrydedd a mynegiant ac gyda'r egni a phenderfyniad sy'n rhan anatod ohonno. Diolch i ti”

9. **SUL Y MAER**

Cyhoeddodd y Maer ei fwriad i gynnal Gwasanaeth Ddinesig yng Nghapel y Priordy ar Ddydd Sul, 1af o Orffennaf 2018 am 10.00 am.

10. **GWEDDI CAU**

Fe wnaeth y Parchedig Beti-Wyn James, Caplan y Maer, cau'r trafodion gyda gweddi.

Gohiriwyd y cyfarfod tan Nos Fercher 30ain o Fai am 7:30 yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.40 yr hwyr.